SUL CYFFREDIN 23

EXODUS 32:1-14; SALM 106:1-6, 19-23;
PHILIPIAID 4:1-9; MATHEW 22:1-14

● **Gweddi agoriadol**
Dduw y bore newydd hwn a phob un arall,
Dduw gwawr a machlud,
bydd yng nghanol ein haddoli,
bydd yng nghalon ein cymdeithas,
bydd yn ganllaw i'n cerdded
a'r heddwch i'n tawelu
drwy oriau'r dydd hwn,
ac wrth i ni orwedd i gysgu.

● **Moliant**
Y diwrnod hwn
a phob diwrnod
molwn dy enw
ac adrodd y cyfan a wnaethost.
Achos os na rannwn dy wirionedd
yn ein bywyd ac yn ein geiriau,
sut y cânt wybod?

Y diwrnod hwn
a phob diwrnod
ceisiwn fyw
bywyd sy'n adlewyrchu y cariad
a'r trugaredd a ddangosaist tuag atom
a cheisiwn fod yn oleuadau
i ti yn y byd.
Y diwrnod hwn
a phob diwrnod.

● Cyffes

Gelwaist ni
i fod yn bobl i ti,
i ddilyn lle rwyt yn arwain,
i fod yn ufudd i'th air
a chario dy newyddion da
ble bynnag yr awn.

Maddau'r diffyg amynedd
a'r prinder ffydd
sy'n achosi i ni faglu,
a ffafrio ein cynlluniau ni dros dy rai di,
a phwyso ar ddoethineb dynol
ar draul y gwirionedd
sy'n dod oddi wrthyt ti.

Tyn ni nôl i'th freichiau,
y rhai afradlon at eu Tad,
a rho i ni amynedd,
dyfalbarhad
a ffydd plentyn
yn ein teithio gyda thi.

● Diolch

Diolch i ti am y rheini
sydd, drwy eu hesiampl,
wedi bod yn oleuni
ar ein taith gyda thi;
y rheini y mae eu harweiniad
wedi ein hysbrydoli,
a'u brwdfrydedd
wedi ein heintio,
sy'n byw pob dydd
gan wybod ei fod yn cyfri.

Bendithia'r fath ffyddlondeb
ble bynnag y'i ceir,
lle daw bywydau yn offrwm
a'th air yn trawsnewid,
a goleuni yn tywynnu
yn y byd tywyll hwn.